
Datblygiad gyrfa a chyflogadwyedd T122

Patrwm cyflwyno *O fis Hydref i fis Mehefin*
 O fis Chwefror i fis Medi

Disgrifiad o'r modiwl

Mae dysgu'n digwydd drwy'r amser ac mewn pob math o sefyllfaoedd yn cynnwys y gweithle, ond ni chaiff ei gydnabod bob amser. Mae astudio'r modiwl hwn yn galluogi myfyrwyr i gael credyd academiaidd am ddysgu yn y gwaith. Bydd yn berthnasol iawn i'w gyrfa, gan y bydd yn meithrin eu sgiliau ymarferol a phroffesiynol a'u gwybodaeth drwy gwblhau gweithgareddau go iawn yn y gwaith sydd wedi'u cynllunio i'w helpu i wella eu perfformiad yn y gwaith. Mae'n rhaid i fyfyrwyr gael mynediad i amgylchedd gweithio realistig a rhaid iddynt gyflawni rôl – p'un a yw'n rôl â thâl neu'n un wirfoddol – y gallant ei defnyddio fel sail ar gyfer eu hastudiaethau. Bydd angen rhywun arnynt heblaw eu tiwtor – fel arfer eu rheolwr llinell – i ddilysu, ond nid asesu, rhywfaint o'u gwaith ar gyfer y modiwl.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- diddordeb amlwg mewn dysgu yn y gweithle ac ymarfer myfyriol
- gwybodaeth am gynllunio datblygiad gyrfa
- gwybodaeth am gyflogadwyedd/sgiliau allweddol/trosglwyddadwy
- dealltwriaeth o'r cysyniad o raddau sylfaen
- y gallu i helpu ac arwain myfyrwyr i ddysgu o'u hymarfer a chymhwyso'r hyn maent yn ei ddysgu at eu hymarfer.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- gwybodaeth am Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol a fframwaith sgiliau.

Gwybodaeth ychwanegol

- Bydd disgwyl i chi roi cymorth i fyfyrwyr drwy fforymau ar-lein, drwy e-bost a thros y ffôn er mwyn eu helpu i gysylltu eu profiadau gwaith a'u gweithgareddau â chysyniadau modiwl o ymarfer myfyriol, meithrin eu datblygiad academiaidd ar lefel AU a'u datblygiad proffesiynol.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	5
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	7

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano a byddwn yn cysylltu â chi ar wahân amdano os yw'n berthnasol.